

Tasg 1

(Heriol, sbardun 2)

trigain namyn dwy o flynyddoedd yn ôl mangre (b) estyn croeso rhagflaenydd Eich Uchelder Brenhinol	60 – 2 flynedd = 58 mlynedd yn ôl lle croesawu, rhoi croeso person ddaeth o flaen ffordd o gyfarch tywysog neu frenin Your Royal Highness
llanc cyffelyb datgan balchder gwehelyth (g/b) amodau dwyster ymddiddori mwyfwy dyheadau lles	bachgen tebyg cyhoeddi teimlad balch teulu telerau cryfder dangos diddordeb mwy a mwy gobeithion budd, mantais

Nawr, gwrandewch ar araith Syr Ben Bowen Thomas eto, a llenwi'r bylchau yn y testun hwn. Efallai bydd rhaid gwrando sawl gwaith.

Trigain mlynedd namyn dwy o flynyddoedd yn ôl, yn y fangre hon, yng
Caernarfon, estynnodd Syr John Rhys groeso Cymru gyfan i ragflaenydd Eich Uchelder
Brenhinol, ac yntau'n llanc ar adeg ei arwisgo'n dywysog Cymru. A
..... ar achlysur cyffelyb, dyma estyn croeso'r un mor i chwithau,
dywysog arall. Yr adeg, wrth ddatgan ei falchder fod yr arwisgo'n
ar dir Cymru, fe eglurodd Syr John y cysylltiad a fu rhwng aelodau'r teulu
brenhinol â Chymru, o ran gwehelyth, a chyfraniad i'w Heddiw, da yw'r
dystiolaeth am ei barhad.

Mae amodau bywyd cymdeithasol wedi newid llawer er dechrau'r hon, a
theimlodd Cymru, fel pob, ddwyster eu grym. Ond yn awr mewn dyddiau
....., mae Cymru yn edrych ymlaen gyfnod pan fydd Tywysog Cymru
yn ymddiddori'n fwyfwy yn ei phroblemau a'i dyheadau, ei a'i
thraddodiadau, a lles ei phobl.

Ateb /Testun Llawn

Trigain mlynedd namyn dwy o flynyddoedd yn ôl, yn y fangre hon, yng nghastell Caernarfon, estynnodd Syr John Rhys groeso Cymru gyfan i ragflaenydd Eich Uchelder Brenhinol, ac yntau'n llanc ifanc ar adeg ei arwisgo'n dywysog Cymru. A heddiw ar achlysur cyffelyb, dyma estyn croeso'r un mor gynnes i chwithau, dywysog arall. Yr adeg honno, wrth ddatgan ei falchder fod yr arwisgo'n digwydd ar dir Cymru, fe eglurodd Syr John y cysylltiad agos a fu rhwng aelodau'r teulu brenhinol â Chymru, o ran gwehelyth, a chyfraniad i'w bywyd. Heddiw, da yw'r dystiolaeth hon am ei barhad.

Mae amodau bywyd cymdeithasol wedi newid llawer er dechrau'r ganrif hon, a theimlodd Cymru, fel pob gwlad, ddwyyster eu grym. Ond yn awr mewn dyddiau gwahanol, mae Cymru yn edrych ymlaen at gyfnod pan fydd Tywysog Cymru yn ymddiddori'n bersonol fwyfwy yn ei phroblemau a'i dyheadau, ei hiaith a'i thraddodiadau, a lles ei phobl.